




Comisiynydd Plant Cymru

Beth Nesa? What Next? Holiadur 11-18+

Darganfyddidau manwl



Cyflwyniad	02
Am yr arolwg	03
Cyflwyno'r canfyddiadau	09
Yr ysgol a'r coleg	11
Yr ardal leol	20
Blaenoriaethau	45



beth nesa'
what next

dweud eich dweud
have your say

Cyflwyniad

Adroddiad yw hwn ar yr arolwg o bobl ifanc oed ysgol uwchradd a throsodd a gynhaliwyd yn hydref 2015 fel rhan o brosiect Beth Nesa. Roedd yr arolwg yn un o gyfres o bedwar, a gynhaliwyd gyda grwpiau o blant a phobl ifanc o wahanol oedrannau, a chydag oedolion, yn casglu eu barn a'u profiadau er mwyn llywio blaenoriaethau Comisiynydd Plant Cymru i'r dyfodol.

Am yr arolwg

Cynnwys yr holiadur

Roedd yr arolwg yn cynnwys holiadur hunan-lenwi, oedd yn cael ei gwblhau'n bennaf gan bobl ifanc ar-lein trwy ddefnyddio cyfrifiadur, llechen neu ffôn symudol. Roedd fersiynau papur o'r holiadur ar gael hefyd ar gais. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

Dull dosbarthu

Cafodd gwybodaeth am yr arolwg, gan gynnwys y dolenni i'r holiaduron ar-lein, ei dosbarthu mor eang â phosib yng Nghymru. Roedd hynny'n cynnwys anfon gwybodaeth i ysgolion, rhannu'r arolwg trwy gyfryngau cymdeithasol, ymgych radio, a hysbysebion ar y we.

The sample

Derbyniwyd cyfanswm o 2,294 o holiaduron wedi'u cwblhau, ac maent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Cafodd tua 12% o'r ymatebion eu cwblhau yn Gymraeg a thua 88% yn Saesneg. Dangosir nodweddion y bobl ifanc yma yn Nhabl 1:

- Roedd tua 56% o'r bobl ifanc yn diffinio'u hunain yn fenyw, 42% yn diffinio'u hunain yn wryw, a

dewisodd rhyw 2% yr opsiwn 'dewis peidio â dweud' mewn ymateb i'r cwestiwn yma..

- Roedd cyfran uwch o bobl ifanc 12 a 13 oed yn yr arolwg nag oeddrannau eraill.
- Roedd mwy na thri o bob pump o'r bobl ifanc (62.5%) yn diffinio'u hunain fel 'Gwyn – Cymreig' a dywedodd 25.5% arall Gwyn – Prydeinig, Seisnig neu Arall. Roedd y bobl ifanc oedd yn weddill, 12%, o gefndir Du a lleiafrifoedd ethnig eraill, fel y crynhoir yn Tabl 1..
- Atebodd tua 5% o'r sampl 'byddwn' i'r cwestiwn 'Fyddet ti'n dweud bod gen ti anabledd?' Ar ben hynny doedd 7% ddim yn siŵr, ac roedd 10% o'r bobl ifanc heb roi ymateb i'r cwestiwn yma
- Atebodd tua 10% o'r sampl 'ydw' i'r cwestiwn 'Wyt ti erioed wedi bod mewn gofal?'. Mae hyn yn ymddangos braidd yn uchel, ac mae'n bosibl bod rhai pobl ifanc wedi camddeall ystyr y cwestiwn yma.
- Roedd mwyafrif mawr y bobl ifanc yn byw gyda'u rhieni (93%) neu gydag aelodau eraill o'r teulu (3.4%). Roedd ychydig o dan 4% o'r bobl ifanc yn byw mewn gofal maeth neu mewn cartref plant.

Tabl 1: Nodweddion y sampl (heb eu pwysoli)


Rhyw	
Merch	56%
Bachgen	42%
Ddim eisiau ateb	2%
Oed	
11 oed	8%
12 oed	19%
13 oed	22%
14 oed	10%
15 oed	12%
16 oed	12%
17 oed	10%
18+	7%
Grŵp ethnig	
Gwyn - Cymreig	62.5%
Gwyn - Prydeinig	11.1%
Gwyn - Seisnig	10.4%
Gwyn – Arall ¹	4.0%
Indiaidd/Pacistani/Bangladeshi	3.0%
Du/Affricanaidd/Caribiaidd	1.2%
Cymysg	3.2%
Arall ²	4.6%
Anabl	
Ydw	5%
Ddim yn siŵr	7%
Nac ydw	79%
Dim ymateb	10%
Wedi bod mewn gofal	
Ydw	10%
Nac ydw	79%
Dim ymateb	11%
Sefyllfa gartref	
Byw gyda rhieni	93%
Byw gydag aelodau eraill o'r teulu	3.4%
Byw mewn gofal maeth	2.1%
Byw mewn cartref plant	1.6%

¹ Mae 'Gwyn - Arall' yn cynnwys y categorïau canlynol: Gwyn - Gwyddelig (0.8%), Gwyn - Albanaidd (0.5%), Gwyn – Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig (0.7%) ac Unrhyw Gefndir Arall Gwyn (2.0%)

² Mae 'Arall' yn cynnwys y categorïau canlynol: Arabaidd (1.2%), Tsieineaidd (0.8%), Unrhyw Gefndir Asiaidd Arall (1.7%) ac Unrhyw Grŵp Ethnig Arall (0.9%)


Dangosir canran y bobl ifanc fesul ardal awdurdod lleol yng Nghymru yn Ffigur 1.

Ffigur 1: Canran y bobl ifanc yn y sampl fesul ardal awdurdod lleol



Cafodd yr ardaloedd hyn eu grwpio'n bedwar rhanbarth 'macro', i gynrychioli gwahanol rannau o Gymru, a chafodd canrannau'r sampl ym mhob rhanbarth eu cymharu â chanrannau'r bobl ifanc yn y boblogaeth gyfan fesul rhanbarth (Ffigur 2). Roedd peth tangynrychiolaeth yn achos rhanbarth y Cymoedd, a gorgynrychiolaeth cyfatebol yn y rhanbarth Metropolitan. Rhoddwyd ystyriaeth i hynny wrth bwysoli'r sampl i'w ddadansoddi (gweler yr adran nesaf)..

Ffigur 2: Canran y bobl ifanc yn y sampl ac yn y boblogaeth fesul rhanbarth macro



Yn olaf, defnyddiwyd cyfres o bedwar cwestiwn er mwyn mesur cefndir economaidd teulu'r bobl ifanc. Cafwyd yn flaenorol fod y dull hwn o fesur - Graddfa Cyfoeth Teuluoedd, fel y'i gelwir – yn ffordd ddefnyddiol o fesur gwahaniaethau yn amgylchiadau economaidd pobl ifanc, gan nad yw'n ymarferol casglu gwybodaeth fanylach megis incwm yr aelwyd trwy arolwg o'r math yma. Pwrpas y cwestiynau hyn oedd gwirio a oedd yr arolwg wedi cyrraedd sampl cytbwys o bobl ifanc o wahanol gefndiroedd economaidd.

.


Mae'r raddfa'n cynnwys pedwar cwestiwn, gyda'r opsiynau ymateb a ganlyn:

- Oes gan dy deulu gar neu fan? (Nac oes/Oes, un/Oes, dau neu fwy)
- Oes gennyt ti ystafell wely dy hunan? (Nac oes/Oes)
- Yn y flwyddyn ddiwethaf, faint o weithiau rwyd ti wedi bod ar wyliau gyda'r teulu? (Ddim o gwbl/Unwaith/Dwywaith/Mwy na dwywaith)
- Faint o gyfrifiaduron sydd gan dy deulu? (Dim/Un/Dau/Mwy na dau)

Mae sgôr cyfoeth teuluoedd o sero i saith yn cael ei greu o ymatebion pobl ifanc i'r pedwar cwestiwn yma, ac mae sgôr uwch yn cynrychioli teulu mwy cyfoethog. Yna caiff y sgoriau hyn eu grwpio'n dri chategori – lefel isel (0-3), ganolig (4-5) ac uchel (6-7) o gyfoeth.

Dangosir canlyniadau'r arolwg hwn yn Ffigur 3. Categoriwyd rhyw un o bob naw person ifanc (11%) fel rhai oedd yn byw mewn teuluoedd â 'lefel isel' o gyfoeth; roedd tua thraean (34%) mewn teuluoedd â chyfoeth 'canolig'; ac roedd ychydig dros hanner (55%) mewn teuluoedd â 'lefel uchel' o gyfoeth.

Ffigur 3: Sgoriau cyfoeth teuluoedd



Yr holiadur

Roedd yr holiadur yn cynnwys 45 o gwestiynau yn yr adrannau canlynol:

- Amdanat ti
- Yr ysgol a'r coleg
- Yr ardal leol
- Llesiant emosiynol a chwilio am help
- Gwybodaeth am hawliau plant
- Hawliau a chyfranogiad yng Nghymru
- Defnydd o ieithoedd
- Blaenoriaethau pobl ifanc

Roedd mwyafrif y cwestiynau mewn fformat blwch ticio caeedig. Roedd ambell gwestiwn â fformat ymateb penagored. Mae geiriad y cwestiynau a'r opsiynau ymateb i'w gweld yn yr adrannau perthnasol ar y canfyddiadau.

Cyflwyno'r canfyddiadau

Pwysiad

Fel y nodwyd uchod, roedd dosbarthiad y bobl ifanc yn anwastad o'i gymharu â phoblogaeth gyffredinol 11-18 oed Cymru. Er mwyn rhoi sylw i hyn a sicrhau bod yr arolwg mor gynrychioliadol â phosib, cafodd y pwysiadau eu cyfrifo. Roedd y pwysiadau hyn yn sicrhau bod cydbwysedd y sampl (a) yn gyfartal o ran rhyw, (b) yn gyfartal o ran oed ac (c) yn cyfateb i gyfran poblogaeth y plant yn y grŵp oed dan sylw oedd yn byw yn y pedwar rhanbarth macro. Drwy ddefnyddio'r dull pwysoli hwn, gwelwyd rhywfaint o newid yng nghyfran y bobl ifanc oedd yn byw mewn gwahanol lefelau o gyfoeth teuluol (12.5% isel, 34% canolig a 53.4% uchel). Mae hyn yn rhesymol gynrychioliadol ar sail gwybodaeth arall yn yr arolwg, felly ni wnaed addasiadau

pwysoli pellach yng nghyswllt y ffactor hwn..

Mae'r holl ganfyddiadau a gyflwynir yng ngweddill yr adroddiad wedi'u pwysoli fel y disgrifiwyd uchod.

Data coll

Roedd lefelau cymharol isel (llai na 10%) o ddata coll yn achos yr holl gwestiynau, ac mae'r ymatebion hyn wedi'u heithrio o'r canrannau a drafodir oni nodir fel arall.

Talgrynnu

Er hwylustod wrth gyflwyno mae'r holl ganrannau wedi cael eu talgrynnu i'r pwynt canran agosaf, felly mae'n bosib na fydd cyfansymiau'r cwestiynau'n creu cyfanswm union o 100%.

Gwahaniaethau arwyddocaol

Lle bynnag yr oedd modd, gwnaed cymariaethau ystadegol o ran yr ymatebion i bob cwestiwn yn ôl rhyw, grŵp oed, cyfoeth teuluol ac yn ôl rhanbarth (lle'r ymddangosai fod hynny'n berthnasol). Oherwydd mai nifer bach o bobl ifanc (llai na 50) a atebodd 'dewis peidio â dweud' i'r cwestiwn ynghylch rhyw, nid oedd modd cynnwys y grŵp hwnnw wrth gymharu. Mae'r cymariaethau rhyw, felly, rhwng y plant a ddewisodd yr opsiynau 'Benyw' a 'Gwryw' yn unig.

Gwnaed yr holl gymariaethau gan ddefnyddio profion chi-sgwâr a lle'r adroddir bod gwahaniaethau'n ystadegol arwyddocaol, mae hynny'n cyfeirio at werth-p sy'n llai na 0.01 (lefel hyder o 99%). Fodd bynnag, fel y trafodwyd uchod, dylid nodi nad sampl ar hap o bobl ifanc yng Nghymru a ddefnyddiwyd yma, a hefyd bod yr ymatebion wedi'u clystru i ryw raddau (er enghraifft, oherwydd bod pobl ifanc o'r un ysgolion yn cymryd rhan yn yr arolwg). Felly dylid ystyried yr holl gymariaethau'n rhai petrus.

Strwythur yr adroddiad

Mae strwythur yr adroddiad yn dilyn strwythur yr holiadur yn fras, a chyflwynir y canfyddiadau mewn adrannau pynciol. Ar ddechrau pob adran ceir trosolwg o'r cwestiynau a ofynnwyd a chrynodeb o'r ymatebion i bob cwestiwn ar gyfer y sampl cyfan a bwysolwyd. Yna mae'r gwahanol is-grwpiau'n cael eu cymharu, ac mae'r siartiau'n dangos y prif bwytiau lle ceir gwahaniaeth.

Yr ysgol a'r coleg


Yng nghyswllt profiadau pobl ifanc o'r ysgol a'r coleg, roedd yr arolwg yn gofyn:

- Tri chwestiwn cyffredinol am yr ysgol/y coleg – hoffi mynd i'r ysgol/coleg; teimlo'n ddiogel; ac a oedd athrawon yn gwrando ac yn cymryd barn pobl ifanc o ddifri; a chwestiwn penodol am y gwersi ABCh
- Tri chwestiwn am eu cyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr ysgol
- Tri chwestiwn am eu profiadau o gael eu bwlio yn yr ysgol
- Roedd dros dri chwarter o'r bobl ifanc yn cytuno eu bod nhw'n hoffi mynd i'r ysgol/coleg.
- Roedd mwyafrif y bobl ifanc yn teimlo'n ddiogel, ond doedd hynny ddim yn wir yn achos rhyw un o bob 10.
- Roedd dros ddau draean o'r bobl ifanc yn teimlo bod eu hathrawon yn gwrando arnyn nhw ac yn eu cymryd o ddifri.
- Roedd hanner y bobl ifanc yn mwynhau'r gwersi ABCh, ond doedd hynny ddim yn wir yn achos rhyw un o bob pump

Cwestiynau cyffredinol am yr ysgol/y coleg

Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau cyffredinol am yr ysgol ac am y gwersi ABCh yn Ffigur 4

Ffigur 4: Trosolwg o'r cwestiynau cyffredinol am yr ysgol a'r coleg




Rhyw

Doedd dim gwahaniaethau arwyddocaol rhwng bechgyn a merched o ran yr ymateb i'r pedwar cwestiwn yma..

Grŵp oedran

Roedd patrymau grŵp oed arwyddocaol yn achos pob un o'r pedwar cwestiwn. Roedd pobl ifanc 14-15 oed yn llai tebygol o gytuno â phob gosodiad na pobl ifanc 11-13 oed. Yn achos y tri chwestiwn cyntaf, roedd pobl ifanc 16 oed a throsodd yn fwy tebygol o gytuno na'r rhai yn y grŵp oedran 14-15. Yn achos y cwestiwn am wersi ABCh, roedd pobl ifanc 16 ac 17 oed yn llai cadarnhaol na grwpiau oed iau, er y gallai hynny gyfeirio at fathau gwahanol o gynnwys yn y gwersi ar gyfer lefel 'A'.


Ffigur 5: % y bobl ifanc oedd yn cytuno â gosodiadau ynghylch yr ysgol fesul grŵp oedran



Cyfoeth teuluol

Roedd tuedd i farn pobl ifanc oedd yn byw ar aelwydydd â lefel isel o gyfoeth fod yn llai cadarnhaol ynghylch yr ysgol nag eiddo pobl ifanc eraill. Roedd y gwahaniaethau hyn yn ystadegol arwyddocaol o ran hoffi mynd i'r ysgol/coleg a theimlo'n ddiogel yn yr ysgol/y coleg.


Ffigur 6: % y bobl ifanc oedd yn cytuno â gosodiadau ynghylch yr ysgol yn ôl cyfoeth teuluol




Cyfranogiad yn yr ysgol/y coleg

Gofynnwyd i'r bobl ifanc pa mor aml roedden nhw'n cael gofyn eu barn ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol. Dywedodd tua chwarter o'r bobl ifanc fod hyn yn digwydd yn eitha aml neu'n aml iawn. Dywedodd tua un o bob wyth (13%) nad oedden nhw byth yn cael gofyn eu barn, a dywedodd 27% arall nad oedd hynny'n digwydd ond yn anaml.

Ffigur 7: Amllder gofyn eu barn ynghylch beth sy'n digwydd yn yr ysgol



Ffigur 8: Frequency of hearing outcomes of being consulted at school



Gofynnwyd i'r bobl ifanc (ac eithrio'r rhai a atebodd 'byth' i'r cwestiwn uchod) pa mor aml bydden nhw'n clywed canlyniad yr hyn oedd yn digwydd ar ôl i rywun ofyn eu barn. Fel y dangosir yn Ffigur 8, roedd ymatebion y bobl ifanc i'r cwestiwn yma'n gymysg iawn, gydag 8%, er enghraifft, yn dweud eu bod bob amser yn clywed y canlyniad, a 12% yn dweud nad oedd hynny byth yn digwydd.

Yn olaf, gofynnwyd hefyd i'r holl bobl ifanc faint o wahaniaeth roedden nhw'n meddwl bod barn pobl ifanc yn ei wneud yn yr ysgol. Roedd tua phumed ohonyn nhw'n teimlo bod barn pobl ifanc yn gwneud gwahaniaeth mawr, ac roedd dau bumed arall yn teimlo ei bod yn gwneud peth gwahaniaeth. Roedd tua un o bob naw yn teimlo nad oedd barn pobl ifanc yn gwneud gwahaniaeth o gwbl.

Gwahaniaethau rhyw

Nid oedd gwahaniaethau rhyw arwyddocaol yn ymatebion pobl ifanc i'r cwestiynau ynghylch pa mor aml roedden nhw'n cael gofyn eu barn neu a oedden nhw'n teimlo bod eu barn yn gwneud gwahaniaeth..

Grŵp oed

Fel yn achos y cwestiynau cyffredinol am yr ysgol, roedd pobl ifanc 14-15 oed yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi cael gofyn


eu barn ac yn llai tebygol o deimlo bod eu barn yn gwneud gwahaniaeth na'r ddau grŵp oedran arall:

- Dywedodd 20% o'r bobl ifanc 14-15 oed eu bod nhw'n aml yn cael gofyn eu barn, o gymharu â 26% o'r bobl ifanc 11-13 oed a 28% o'r bobl ifanc 16 oed a throsodd.
- Teimlai 16% o'r bobl ifanc 14-15 oed fod barn pobl ifanc yn gwneud gwahaniaeth mawr yn yr ysgol, o'i gymharu â 26% o'r grŵp oedran 11-13 oed a 21% o'r grŵp 16 oed a throsodd.

Gwahaniaethau cyfoeth teuluol

Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol yn yr ymatebion i'r cwestiynau yn ôl cyfoeth teuluol.

Ffigur 9: Ymatebion ynghylch faint o wahaniaeth mae barn pobl ifanc yn ei wneud yn yr ysgol



Profiadau o gael eu bwlio


Gofynnwyd i'r bobl ifanc pa mor aml roedden nhw wedi profi tri math o fwlio yn ystod y mis diwethaf:

- Cael eu taro gan bobl ifanc eraill yn yr ysgol neu'r coleg
- Cael eu gadael allan gan bobl ifanc eraill yn y dosbarth
- Cael eu galw'n enwau cas neu gael pobl yn chwerthin am eu pen

Gwelir trosolwg o'r ymatebion i'r tri chwestiwn yma yn Ffigur 10.

- Roedd dros bumed (22%) o'r bobl ifanc wedi cael eu taro gan bobl ifanc eraill
- Roedd dros draean (35%) wedi cael eu gadael allan gan bobl ifanc eraill yn y dosbarth
- Roedd tua dau bumed (41%) wedi cael eu galw'n enwau cas neu wedi cael pobl yn chwerthin am eu pen.

Ffigur 10: Trosolwg – profiadau o gael eu bwlio



Gwahaniaethau rhyw


Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ymatebion y merched a'r bechgyn i ddau o'r tri chwestiwn yma (gweler Ffigur 11).

— Roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched o gael eu taro gan bobl ifanc eraill..

— Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o gael eu gadael allan gan bobl ifanc eraill yn y dosbarth.

— Doedd dim gwahaniaeth arwyddocaol o ran a oedd merched a bechgyn wedi cael pobl yn galw enwau arny'n nhw.

Ffigur 11: Profiadau o gael eu bwlio yn ôl rhyw




Grŵp oedran

Roedd gostyngiad arwyddocaol yn nhebygolrwydd cael eu taro gan bobl ifanc eraill ar draws y tri grŵp oedran. Roedd gostyngiad arwyddocaol hefyd o ran profi'r ddau fath arall o ymddygiad yn y grŵp oedran 16-18+ o'i gymharu â'r grwpiau oed iau.

Cyfoeth teuluol

Roedd pobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd â lefel isel o gyfoeth yn sylweddol fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael eu galw'n enwau cas (50%) na phobl ifanc ar aelwydydd â lefel ganolig (38%) neu uchel (40%) o gyfoeth. Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl cyfoeth teuluol yn achos y ddau fath arall o fwlio.

Ffigur 12: Profiadau o gael eu bwlio yn ôl grŵp oedran



Yr ardal leol

Gofynnodd yr arolwg:

- Chwe chwestiwn cyffredinol ynghylch barn pobl ifanc am yr ardal leol, yn trafod y cyfleusterau, diogelwch ac a oedden nhw'n teimlo bod oedolion yn gwrandio arny'n nhw
- Tri chwestiwn am gyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr ardal leol
- Un cwestiwn am brofiadau o erledigaeth yn yr ardal leol

Barn gyffredinol am yr ardal leol


Mae trosolwg o ymatebion y bobl ifanc i'r chwe chwestiwn cyffredinol i'w weld yn Ffigur 13:

- Roedd dros hanner y bobl ifanc yn cytuno bod manau iddyn nhw fynd yn eu hardal leol. Serch hynny, roedd llai na thraean (29%) yn

cytuno bod digon o bethau difyr i'w gwneud lle roedden nhw'n byw, ac roedd 35% yn cytuno bod dim i'w wneud yn eu hardal.

- Roedd mwyafrif y bobl ifanc yn cytuno eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel yn cerdded o gwmpas yn eu hardal leol, ond roedd tua un o bob pump (19%) yn anghytuno â'r gosodiad yma
- Roedd ychydig dros chwarter (26%) yn cytuno bod y ffyrdd lleol yn beryglus.
- Roedd mwy o bobl ifanc (39%) yn anghytuno bod oedolion yn eu hardal yn gwrandio ar farn plant nag oedd yn cytuno â'r gosodiad hwnnw (24%). Doedd mwy na thraean (37%) ddim yn cytuno nac yn anghytuno.


Ffigur 13: Trosolwg – barn am yr ardal leol



Rhyw

Roedd merched yn sylweddol lai cadarnhaol am gyfleusterau a diogelwch lleol na bechgyn (Ffigur 14) er nad oedd rhai o'r gwahaniaethau yma mor fawr â hynny. Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol o safbwynt rhyw yn achos y ddau gwestiwn arall.


Ffigur 14: Detholiad o'r farn am yr ardal leol yn ôl rhyw



Grŵp oed

Roedd gwahaniaethau grŵp oed arwyddocaol yn achos pump o'r chwe chwestiwn yma, a diogelwch ffyrdd oedd yr eithriad. Y nodwedd fwyaf trawiadol yw'r gostyngiad sydyn yn lefelau boddhad ynghylch cyfleusterau lleol rhwng y grwpiau oedran 11-13 a 14-15 (Ffigur 15). Roedd y ddau grŵp oed hynaf lai na hanner mor debygol â'r grŵp oed iau o gytuno bod 'llawer o bethau difyr i'w gwneud lle rydw i'n byw'; ac roedden nhw fwy na dwywaith mor debygol o gytuno bod 'dim byd i'w wneud yn fy ardal i'. Roedd gostyngiad yn y teimladau o fod yn ddiogel wrth i bobl ifanc dyfu'n hŷn. Roedd pobl ifanc dros 13 oed hefyd yn llawer llai tebygol o gytuno bod oedolion yn gwrando ar eu barn na phobl ifanc 11-13 oed.


Ffigur 15: Barn am yr ardal leol yn ôl grŵp oed



Cyfoeth teuluol

Roedd tuedd i bobl ifanc oedd yn byw mewn teuluoedd mwy cyfoethog fod â barn fwy cadarnhaol am y rhan fwyaf o agweddau ar eu hardal leol (Ffigur 16). Yr eithriad eto oedd diogelwch ffyrdd, lle nad oedd patrwm arwyddocaol. Fodd bynnag, dylid cadw mewn cof y gallai fod cysylltiad rhwng y patrymau hyn a'r rhanbarthau lle mae'r bobl ifanc yn byw (gweler yr adran nesaf), gan fod patrymau gwahanol o gyfoeth mewn gwahanol ranbarthau..

Ffigur 16: Barn am yr ardal leol yn ôl cyfoeth teuluol




Rhanbarth

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y rhanbarthau macro o ran barn pobl ifanc am eu hardal leol.

- Y prif batrwm oedd mai pobl ifanc yn rhanbarth y Cymoedd oedd yn lleiaf bodlon ar y cyfleusterau lleol ac o ran teimlo'n ddiogel (Ffigur 17)..
- Nid oedd gwahaniaethau rhanbarthol arwyddocaol o ran y farn ynghylch diogelwch ffyrdd.
- Roedd gwahaniaethau llai yn yr ymatebion i'r cwestiwn ynghylch a oedd oedolion yn gwrando ar farn pobl ifanc, ond eto yn rhanbarth y Cymoedd y cafwyd y lefelau isaf o gytundeb.

Ffigur 17: Barn am yr ardal leol yn ôl rhanbarth




Cyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau yn lleol

Gofynnwyd tri chwestiwn i'r bobl ifanc ynghylch eu cyfranogiad mewn penderfyniadau lleol a oedd yn debyg i'r rhai a drafodwyd ar gyfer yr ysgol yn gynharach.


Yn gyntaf, roedd cwestiwn ynghylch amllder cael gofyn eu barn ynghylch beth sy'n digwydd yn yr ardal leol. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn Ffigur 18. Ychydig iawn o'r bobl ifanc (8%) ddywedodd eu bod yn cael gofyn eu barn yn aml (yn eitha aml neu'n aml iawn), a dywedodd dros ddau bumed ohonynt (42%) nad oedd neb byth yn gofyn eu barn.

Ffigur 18: Amllder cael gofyn eu barn ynghylch beth sy'n digwydd yn yr ardal leol




Wedyn gofynnwyd i'r bobl ifanc oedd yn dweud bod rhywun wedi gofyn eu barn pa mor aml roedden nhw'n clywed canlyniad hynny. Mae'r ymatebion i'w gweld yn Ffigur 19. Dywedodd tua un o bob pump o'r bobl ifanc hyn eu bod fel arfer neu bob amser yn clywed beth oedd y canlyniad.

Ffigur 19: Amllder clywed y canlyniad yn dilyn ymgynghoriad barn ar yr ardal leol



Yn olaf, gofynnwyd i'r bobl ifanc faint o wahaniaeth roedden nhw'n teimlo bod barn pobl ifanc yn ei wneud i beth oedd yn digwydd yn eu hardal leol. Dywedodd tua un o bob wyth (13%) o'r bobl ifanc eu bod nhw'n teimlo bod barn pobl ifanc yn gwneud gwahaniaeth mawr, a dywedodd 29% arall eu bod nhw'n teimlo eu bod yn gwneud peth gwahaniaeth.

Ffigur 20: Ymatebion ynghylch y gwahaniaeth mae barn pobl ifanc ar yr ardal leol yn ei wneud



Mae'r gwahaniaethau rhwng is-grwpiau a drafodir isod yn cyfeirio at y cwestiwn ynghylch amllder cael gofyn eu barn ynghylch beth sy'n digwydd yn yr ardal leol.

Rhyw

Roedd gwrywod yn fwy tebygol na benywod o ddweud eu bod wedi cael gofyn eu barn.

Grŵp oed

Doedd dim gwahaniaeth arwyddocaol yn yr ymatebion i'r cwestiwn ynghylch ymgynghori yn ôl grŵp oed.

Cyfoeth teuluol

Doedd dim gwahaniaeth arwyddocaol yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ôl cyfoeth teuluol

Rhanbarth macro


Roedd cryn amrywiaeth rhwng y rhanbarthau macro, er bod y gwahaniaethau yma'n eitha bychan mewn gwirionedd. Pobl ifanc yn rhanbarth y Canoldir Gwledig oedd y rhai rwyf tebygol (33%) o ddweud eu bod weithiau neu'n aml wedi cael gofyn eu barn ynghylch beth sy'n digwydd yn yr ardal leol, gyda'r Cymoedd (28%), y Gogledd Gwledig (25%), ac yna'r rhanbarth Metropolitan (24%) yn dilyn.

Profiadau o erledigaeth yn yr ardal leol

Gofynnwyd cwestiwn i'r bobl ifanc ynghylch pa mor aml byddai pobl ifanc eraill yn eu brifo neu'n pigo arnyn nhw pan fydden nhw allan yn yr ardal leol (Ffigur 21). Dywedodd dau draean o'r bobl ifanc nad oedd hynny byth yn digwydd iddyn nhw.

Doedd dim gwahaniaethau arwyddocaol o ran y tebygolrwydd o brofi erledigaeth yn ôl rhyw, grŵp oed na rhanbarth. Fodd bynnag, roedd pobl ifanc o deuluoedd llai cyfoethog yn wynebu risg fwy. Roedd ychydig dros 41% o'r bobl ifanc mewn teuluoedd â lefel isel o gyfoeth wedi profi erledigaeth, o'i gymharu â 35% o'r bobl ifanc mewn teuluoedd â lefel ganolig o gyfoeth a 29% o'r bobl ifanc mewn teuluoedd â lefel uchel o gyfoeth.

Ffigur 21: Pan fyddi di allan yn dy ardal leol, pa mor aml mae pobl ifanc eraill yn dy frifo di neu'n pigo arnat ti'n fwriadol?



Llesiant emosiynol a chwilio am help

Oherwydd bod y ddarpariaeth iechyd meddwl yn bwnc mor bwysig yng nghyfnod ymgynghori'r prosiect, penderfynwyd cynnwys rhai cwestiynau ynghylch llesiant emosiynol a chwilio am help yn yr holiadur i bobl ifanc.

Tynnwyd y cwestiynau ynghylch llesiant emosiynol o waith ymchwil blaenorol, ac fe'u lluniwyd i gwmpasu gwahanol agweddau ar emosiynau cadarnhaol a negyddol diweddar. Fodd bynnag, dylid nodi nad oes bwriad i'r rhain fesur salwch meddwl, ac na ddylid eu dehongli felly. Gofynnwyd i'r bobl ifanc pa mor aml roedden nhw wedi teimlo pum peth gwahanol yn ystod y pedair wythnos diwethaf – hapus, pryderus, wedi ymlacio, trist a llawn egni.

Roedd y gyfres hon o gwestiynau hefyd yn fodd i gyflwyno pwnc teimladau cadarnhaol a negyddol, ac i arwain ymlaen i'r tri chwestiwn am chwilio am help oedd yn dilyn. Roedd y cyntaf o'r cwestiynau hyn yn gofyn i bobl ifanc beth bydden nhw'n ei wneud petaen nhw'n teimlo'n bryderus neu'n drist am rywbeth, ac eisiau siarad amdano. Roedd amrywiaeth o opsiynau ymateb, a gallai'r bobl ifanc ddewis cynifer ag roedden nhw'n dymuno. Wedyn roedd dau gwestiwn am wybodaeth ynghylch gwasanaethau lleol oedd yn cynnig help i bobl ifanc oedd yn teimlo'n bryderus neu'n drist, a defnydd ohonynt.


Teimladau cadarnhaol a negyddol

Dangosir yr ymatebion cyffredinol i'r pum cwestiwn am deimladau cadarnhaol a negyddol yn Ffigur 22.

Roedd mwyafrif y bobl ifanc yn profi'r tri theimlad cadarnhaol (hapus, wedi ymlacio a llawn egni) yn aml neu bron bob amser. Fodd bynnag, dywedodd 3% o'r bobl ifanc nad oeddent wedi teimlo'n hapus o gwbl yn ystod y pedair wythnos diwethaf, roedd 5% erioed wedi teimlo eu bod wedi ymlacio, a doedd 8% erioed wedi teimlo'n llawn egni.

Yng nghyswllt y ddau deimlad negyddol, dywedodd bron pumed ran (19%) o'r bobl ifanc eu bod nhw'n aml neu bron bob amser wedi teimlo'n drist yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf, a dywedodd dros chwarter (29%) eu bod nhw'n aml neu bron bob amser yn teimlo'n bryderus.

Ffigur 22: Trosolwg – amlder teimladau cadarnhaol a negyddol yn ystod y pedair wythnos diwethaf




Nid yw'r canfyddiadau hyn ynghylch amllder teimladau cadarnhaol a negyddol o reidrwydd yn gwrthddweud ei gilydd, gan fod ymchwil wedi dangos droeon nad dau begwn un continwwm yw'r ddau fath yma o deimladau, a bod modd profi'r ddau fath o fewn yr un cyfnod o amser.

Mae'r dadansoddiad sy'n dilyn yn ymwneud â chanran y bobl ifanc yn y gwahanol is-grwpiau a oedd wedi profi pob teimlad 'yn aml' neu 'bron bob amser' yn ystod y pedair wythnos diwethaf.

Rhyw

Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng merched a bechgyn o ran teimlo'n hapus. Fodd bynnag, roedd bechgyn yn teimlo eu bod wedi ymlacio ac yn llawn egni yn amlach na merched; tra bod merched yn teimlo'n drist ac yn bryderus yn amlach na bechgyn (Ffigur 23)


Ffigur 23: Teimladau cadarnhaol a negyddol diweddar yn ôl rhyw



Grŵp oed

Roedd gostyngiad sylweddol ym mhob un o'r teimladau cadarnhaol a chynnydd sylweddol yn y ddau deimlad negyddol wrth i'r oed godi (Ffigur 24).


Ffigur 24: Teimladau cadarnhaol a negyddol diweddar yn ôl grŵp oed



Cyfoeth teuluol

Roedd gwahaniaethau sylweddol hefyd yn achos pob un o'r pum teimlad cadarnhaol a negyddol rhwng is-grwpiau o bobl ifanc ar sail y dull o fesur cyfoeth teuluol. At ei gilydd, roedd tuedd i bobl ifanc mewn teuluoedd mwy cyfoethog brofi teimladau cadarnhaol yn amlach, a phrofi teimladau negyddol yn llai aml. Roedd y patrwm hwn yn llai amlwg o ran amllder teimlo'n bryderus nag yn achos y pedwar teimlad arall.

Ffigur 25: Teimladau cadarnhaol a negyddol diweddar yn ôl cyfoeth teuluol



Rhanbarth


Nid oedd ond un gwahaniaeth arwyddocaol yn amllder y teimladau hyn yn ôl y math o ranbarth yr oedd y bobl ifanc yn byw ynddo. Roedd pobl ifanc oedd yn byw yn y ddau ranbarth macro gwledig yn teimlo eu bod wedi ymlacio'n amlach (tua 60% yn y ddau ranbarth) na phobl ifanc oedd yn byw yn y Cymoedd (51%) a'r rhanbarth Metropolitan (52%)..

Chwilio am help wrth deimlo'n drist neu'n bryderus

Dangosir ymatebion y bobl ifanc i'r cwestiwn ynghylch beth bydden nhw'n ei wneud wrth deimlo'n drist neu'n bryderus a bod eisiau siarad am hynny yn Ffigur 26. Dylid cofio bod y bobl ifanc yn gallu dewis mwy nag un opsiwn yn achos y cwestiwn hwn, felly mae'r canrannau'n creu cyfanswm o fwy na 100%.

Dywedodd ychydig dros hanner y bobl ifanc (52%) y bydden nhw'n siarad â ffrind, a dywedodd ychydig o dan hanner (47%) y bydden nhw'n siarad â rhywun gartref. Dywedodd ychydig o dan ddau o bob pum person ifanc (38%) y bydden nhw'n cadw pethau iddyn nhw eu hunain.

Ffigur 26: Taset ti'n teimlo'n bryderus neu'n drist am rywbeth ac eisiau siarad amdano fe, beth fyddet ti'n ei wneud?



Rhyw


Yr unig wahaniaeth arwyddocaol o ran rhyw yn yr ymatebion hyn oedd bod merched yn fwy tebygol (58%) o ddweud y bydden nhw'n siarad â ffrind na bechgyn (45%).

Grŵp oed

Roedd sawl gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grŵp oed 11-13 a'r ddau grŵp

oed hŷn wrth ymateb i'r cwestiynau hyn. Roedd pobl ifanc 14 oed a throsodd yn llawer mwy tebygol o ddweud y bydden nhw'n cadw pethau iddyn nhw eu hunain (26% o'r grŵp oed 11-13 a 44%-47% o'r ddau grŵp oed hŷn) ac yn llawer llai tebygol o ddweud y bydden nhw'n siarad â rhywun gartref neu ag athro (30% o'r grŵp oed 11-13 a 12% i 13% o'r ddau grŵp oed hŷn).


Ffigur 27: Ffynonellau help posibl yn ôl grŵp oed



Cyfoeth teuluol

Roedd patrymau arwyddocaol hefyd yn ymatebion y bobl ifanc yn ôl cyfoeth teuluol. Pobl ifanc mewn teuluoedd â lefel isel o gyfoeth oedd y rhai mwyaf tebygol o ddweud y bydden nhw'n cadw pethau iddynt eu hunain, a nhw oedd y rhai lleiaf tebygol o ddweud y bydden nhw'n siarad â rhywun gartref neu ag athro.

Ffigur 28: Ffynonellau help posibl yn ôl cyfoeth teuluol




Gwybodaeth am wasanaethau a defnydd ohonynt

Mae'n anodd iawn llunio cwestiynau arolwg ar gyfer pobl ifanc sy'n ymwneud â gwybodaeth am wasanaethau penodol. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiwn am wybodaeth ynghylch 'mannau neu wasanaethau yn eich ardal chi sy'n helpu pobl ifanc os byddan nhw'n bryderus neu'n drist am rywbeth'. Cyflwynir y canlyniadau yn Ffigur 29. Fodd bynnag, dylid gweld y rhain fel canlyniadau petrus. Er enghraifft, nid yw geiriad y cwestiwn yn cynnwys gwybodaeth am linellau ffôn cymorth a all fod wedi'u lleoli y tu allan i ardal y person ifanc. Ar sail yr ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd ychydig dros chwarter (27%) y bobl ifanc yn gwybod am wasanaethau lleol y gallen nhw droi atynt petaen nhw'n profi anawsterau emosiynol. Roedd yr wybodaeth am wasanaethau'n cynyddu gydag oed (21% o'r grŵp oed 11-13; 28% o'r grŵp oed 14-15, a 31% o'r

grŵp oed 16 a throsodd) a rhywfaint yn uwch mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd eraill. Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghyswllt rhyw neu gyfoeth teuluol.

Wedyn gofynnwyd i'r bobl ifanc a atebodd 'ydw' i'r cwestiwn uchod a oeddent erioed wedi bod i un o'r manau neu'r gwasanaethau hyn pan oedden nhw'n pryderu neu'n drist am rywbeth. Dywedodd tua chwarter (25%) o'r bobl ifanc eu bod wedi gwneud hynny, doedd 3% ddim yn siŵr, a dywedodd 72% nad oeddent. Ar y sail hon, roedd rhwng 6% a 7% o'r bobl ifanc (h.y. 25% o 27%) wedi defnyddio gwasanaethau o'r math yma. Serch hynny, mae'n bosibl nad yw'r amcangyfrif yma'n gadarn, am y rhesymau a ddisgrifiwyd uchod ac oherwydd bod sampl y bobl ifanc a ddywedodd eu bod yn gwybod am y gwasanaethau hyn yn gymharol fach.

Ffigur 29: Gwybodaeth am wasanaethau sy'n darparu cefnogaeth ar gyfer materion emosiynol



Gwybodaeth am hawliau plant

Gofynnwyd pedwar cwestiwn seiliedig ar osodiadau i'r bobl ifanc ynghylch hawliau plant. Mae geiriad y gosodiadau a chrynodeb o ymatebion y bobl ifanc i'w gweld yn Ffigur 30..

- Dywedodd tua hanner y bobl ifanc eu bod nhw'n gwybod am hawliau plant, er mai dim ond 31% ddywedodd eu bod yn gwybod pa hawliau sydd gan blant o dan Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn.
- Roedd tua dau bumed (39%) wedi dysgu am hawliau plant yn yr ysgol neu'r coleg.
- Roedd dros hanner (53%) yn dweud y bydden nhw'n hoffi dysgu mwy am hawliau plant, a dim ond 18% ddywedodd na fydden nhw, gyda'r gweddill yn ansicr.

Rhyw

Yr unig wahaniaeth arwyddocaol o ran rhyw mewn ymateb i'r cwestiynau hyn oedd bod merched (61%) yn fwy tebygol na bechgyn o ddweud y bydden nhw'n hoffi dysgu mwy am hawliau plant..


Oed

Roedd gan bobl ifanc 16 oed a throsodd rywfaint yn fwy o wybodaeth (34%) am Gonfensiwn y CU na'r ddau grŵp oed iau (28% i 30%). Fodd bynnag, y gwahaniaeth mwyaf trawiadol o ran oed oedd bod pobl ifanc 11-13 oed yn llawer mwy tebygol (51%) o ddweud eu bod nhw wedi dysgu am hawliau plant yn yr ysgol na phobl ifanc 14-15 oed (32%) a phobl ifanc 16 oed a throsodd (32% hefyd).

Cyfoeth teuluol

Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol ym mhatrymau'r ymatebion i'r gyfres hon o gwestiynau yn ôl cyfoeth teuluol.

Ffigur 30: Trosolwg – gwybodaeth am hawliau plant



Hawliau a chyfranogiad yng Nghymru

Yn dilyn y cwestiwn am hawliau plant, gofynnwyd tri chwestiwn i'r bobl ifanc am hawliau a chyfranogiad ar lefel genedlaethol yng Nghymru. Gwelir geiriad y cwestiynau a chrynodeb o'r ymatebion yn Ffigur 31.

- Roedd ychydig o dan hanner (45%) y bobl ifanc yn cytuno bod oedolion yng Nghymru yn gyffredinol yn parchu hawliau pobl ifanc.
- Roedd llai na thraean (31%) yn cytuno bod oedolion yng Nghymru yn gwrando ar farn pobl ifanc.
- Roedd cyfran debyg yn cytuno bod barn pobl ifanc yn gwneud gwahaniaeth i'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru.

Rhyw

Roedd bechgyn yn sylweddol fwy tebygol (51%) na merched o gytuno bod oedolion yn parchu hawliau pobl ifanc. Doedd dim gwahaniaeth rhyw yn achos y ddau gwestiwn arall.

Oed

Roedd proffil oed clir, arwyddocaol i'r ymatebion i bob un o'r cwestiynau hyn, gyda chyfran is o'r bobl ifanc yn cytuno wrth i'r oed godi (Ffigur 32).


Cyfoeth teuluol

Roedd gwahaniaethau llai o ran cyfoeth teuluol er bod y rhain yn ystadegol arwyddocaol yn achos y ddau gwestiwn cyntaf. Yn achos y ddau gwestiwn yma, roedd pobl ifanc o deuluoedd mwy cyfoethog rywfaint yn fwy tebygol o gytuno.


Rhanbarth

Yr unig wahaniaeth rhanbarthol arwyddocaol oedd bod pobl ifanc yn y ddau ranbarth gwledig rywfaint yn fwy tebygol o gytuno bod oedolion yng Nghymru yn parchu hawliau pobl ifanc na phobl ifanc yn rhanbarth y Cymoedd a'r rhanbarth Metropolitan.


Ffigur 31: Trosolwg – barn ar hawliau a chyfranogiad yng Nghymru



Ffigur 32: Barn ynghylch hawliau a chyfranogiad yng Nghymru yn ôl grŵp oed



Ffigur 33: Barn ynghylch hawliau a chyfranogiad yng Nghymru yn ôl cyfoeth teuluol




Defnydd o ieithoedd

Gofynnwyd tri chwestiwn i'r bobl ifanc ynghylch pa ieithoedd roedden nhw'n eu defnyddio gartref, yn yr ysgol a chyda'u ffrindiau. Ym mhob achos, cynigiwyd tri opsiwn – Cymraeg, Saesneg ac Arall. Roedd modd dewis mwy nag un ymateb i bob cwestiwn. Mae trosolwg o'r ymatebion i'w weld yn Ffigur 34.

- Roedd pobl ifanc yn fwy tebygol o ddefnyddio Cymraeg yn yr ysgol (36%) na gartref (15%) neu gyda ffrindiau (12%).
- Roedd lefelau'r defnydd o Saesneg yn debyg iawn ym mhob un o'r tri lleoliad.
- Dywedodd tua un o bob 11 o blant eu bod nhw'n siarad ieithoedd eraill gartref

Ffigur 34: Trosolwg – defnydd o ieithoedd gartref, yn yr ysgol a chyda ffrindiau



Prosiect Beth Nesa, Rhan 2, Adroddiad ar holiadur i bobl ifanc 11 to 18+ oed

Mae'r cymariaethau sy'n dilyn yn cyfeirio at y defnydd o'r Gymraeg.

Rhyw

Nid oedd gwahaniaethau rhyw arwyddocaol yn y defnydd o'r Gymraeg gartref, yn yr ysgol neu gyda ffrindiau.

Oed

Roedd patrymau oed arwyddocaol, gan fod y grŵp oed iau yn fwy tebygol o ddefnyddio Cymraeg na'r grwpiau oed hŷn (Ffigur 35).

Cyfoeth teuluol


Roedd amrywiadau mawr hefyd yn y defnydd o'r Gymraeg ymhlith pobl ifanc yn ôl cyfoeth teuluol. Roedd defnydd o'r Gymraeg yn llawer mwy cyffredin ymhlith pobl ifanc o deuluoedd â lefel uchel o

gyfoeth na rhai â lefel isel o gyfoeth (Ffigur 36).


Rhanbarth

Pobl ifanc oedd yn byw yn rhanbarth y Canoldir Gwledig oedd y rhai mwyaf tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun, gyda'r Gogledd Gwledig yn dilyn. Pobl ifanc yn y Cymoedd oedd y rhai lleiaf tebygol o ddefnyddio Cymraeg gartref a chyda ffrindiau, ond roedden nhw rywfaint yn fwy tebygol o ddefnyddio Cymraeg yn yr ysgol na phobl ifanc o'r rhanbarth Metropolitan. Byddai natur ysgolion y bobl ifanc o bob rhanbarth a fu'n cymryd rhan yn yr arolwg wedi cael effaith arbennig ar y patrwm hwn, gan fod mwyafrif yr ymatebion wedi dod trwy'r llwybr hwn


Ffigur 35: Defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn ôl grŵp oed



Ffigur 36: Defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn ôl cyfoeth teuluol



Ffigur 37: Defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn ôl rhanbarth



Blaenoriaethau

Gofynnwyd i'r bobl ifanc ddewis o blith rhestr o 14 o flaenoriaethau oedd yn deillio o ganlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yng nghyfnod cyntaf y prosiect.


Roedd geiriad y cwestiwn fel a ganlyn:

Darllen y rhestr yn ofalus ac yna ticio hyd at 5 o bethau rwy't ti'n meddwl sy'n fwyaf

pwysig i wneud pethau'n well i bobl ifanc yng Nghymru.

Mae canlyniadau'r cwestiwn yma wedi'u crynhoi yn Ffigur 38, yn nhrefn ddisgynnol blaenoriaeth. Bwlio oedd y flaenoriaeth uchaf, gan fod dros hanner y bobl ifanc a fu'n cymryd rhan yn yr arolwg wedi'i ddewis.

Ffigur 38: Blaenoriaethau pobl ifanc i wneud pethau'n well i bobl ifanc yng Nghymru.



Does dim modd gwneud profion ystadegol i gymharu ymatebion y gwahanol is-grwpiau, fel y gwnaed yn adrannau eraill yr adroddiad hwn, oherwydd fformat penodol y cwestiwn yma³. Fodd bynnag, y mae modd cymharu ymatebion y gwahanol is-grwpiau yn weledol. Mae'r rhain i'w gweld yn Tabl 2 ar ffurf safleoedd yn hytrach na chanrannau, er hwylustod dehongli.

At ei gilydd, gallwn weld mai cymharol ychydig o wahaniaeth sydd ym mlaenoriaethau pobl ifanc ar sail oed, rhyw, cyfoeth teuluol na rhanbarth.

hamgylchiadau economaidd neu eu rhanbarth.

- Nid yw dim o'r safleoedd i fenywod a gwrywod yn amrywio mwy na dau safle. Mae gwasanaethau cefnogaeth emosiynol a diogelwch yn yr ysgol mewn safle rywfaint yn uwch ymhlith benywod, tra bod diogelwch yr ardal leol a chyfranogiad yn yr ysgol rywfaint yn uwch yn achos y gwrywod.
- Mae diogelwch yn yr ardal leol a chyfranogiad yn yr ysgol yn flaenoriaethau uwch i'r grŵp oed ifancaf, tra bod amddiffyniad rhag trais a chamdriniaeth gartref a help wrth adael yr ysgol neu'r coleg yn flaenoriaethau uwch wrth i bobl ifanc dyfu'n hŷn
- Mae cyfleusterau lleol yn flaenoriaeth uwch i bobl ifanc o deuluoedd cyfoeth isel, tra bod amddiffyniad rhag trais a chamdriniaeth gartref yn flaenoriaeth is.
- Mae rhai o'r blaenoriaethau yn y safleoedd is yn amrywio yn ôl rhanbarth, ond cymharol ychydig o amrywiaeth sydd i'w weld yn y blaenoriaethau uwch.

Felly ceir tystiolaeth resymol yma bod set o flaenoriaethau a rennir yn gyffredinol ymhlith y grŵp oed yma yng Nghymru, beth bynnag yw eu rhyw, eu hoed, eu

³ Gan nad oedd y plant yn cael dewis mwy na phum blaenoriaeth, nid yw'r holl ddeuwsiadau'n gwbl annibynnol ar ei gilydd.

Tabl 2: Safleoedd y blaenoriaethau yn ôl rhyw, grŵp oed, cyfoeth teuluol a rhanbarth

	Pawb	Benyw	Gwryw	Y			Cyfoeth Isel	Cyfoeth canolig	Cyfoeth Uchel	Gogledd Gwledig	Y Canoldir Gwledig	Cymoedd	Metropolitan
				11 i 13	14 i 15	16 i 18							
Stopio pobl ifanc rhag cael eu bwlio	1	1	1	1	1	2	2	1	1	1	1	1	1
Amddiffyn plant a phobl ifanc rhag trais a chamdriniaeth yn y cartref	2	2	3	3	2	1	4	2	2	3	2	2	2
Lleoedd gwell i bobl ifanc dreulio amser yn yr ardal leol	3	3	2	2	3	3	1	3	3	2	3	3	4
Mwy o help i bobl ifanc a theuluoedd sydd heb ddigon o arian	4	4	4	4	4	6	3	4	4	4	4	4	3
Mwy o help a chefnogaeth i bobl ifanc sy'n bryderus neu'n teimlo'n isel	5	5	7	6	5	5	5	5	6	5	5	6	5
Mwy o help i bobl ifanc pan fyddan nhw'n gadael yr ysgol neu'r coleg	6	6	6	8	6	4	7	6	7	8	6	5	6
MGwneud ardaloedd lleol yn fwy diogel i bobl ifanc	7	7	5	5	8	8	6	7	5	6	7	7	7
Help i rieni fagu eu plant yn dda	8	8	8	7	7	7	8	8	8	7	8	8	8
Gwneud ysgolion yn fwy diogel i bobl ifanc	9	9	11	10	10	10	10	9	10	10	13	13	9
Helpu pobl ifanc i gael dweud eu dweud yn fwy yn yr ysgol/y colege	10	11	9	9	11	13	9	11	9	13	10	9	10
Helpu pobl ifanc i gael dweud eu dweud yn fwy am eu hardal leol	11	12	10	12	13	9	11	10	12	9	12	10	13
Gwell gwersi ABCh yn yr ysgol	12	10	12	11	9	12	12	13	11	14	9	12	12

Prosiect Beth Nesa, Rhan 2, Adroddiad ar holiadur i bobl ifanc 11 to 18+ oed

Helpu pobl ifanc i gael dweud eu dweud yn fwy am fywyd yng Nghymru	13	13	13	13	14	11	13	14	13	12	11	11	14
Mwy o wasanaethau a digwyddiadau i blant a phobl ifanc yn y Gymraeg	14	14	14	14	12	14	14	12	14	11	14	14	11